Trefniadau Iechyd a Diogelwch Ysgol Mynydd Bychan

Pwrpas y trefniadau isod ydy i sicrhau iechyd a diogelwch pob plentyn ac aelod o staff fydd ar safle Ysgol Mynydd Bychan tra bo'r cyfyngiadau oherwydd COVID-19 yn eu lle. Yn amlwg, bydd pob aelod o staff yn sicrhau bod y plant yn cael eu croesawu mewn ffordd ofalgar ac i awyrgylch sydd mor hwyliog, byrlymus a chartrefol ag sydd yn bosibl o dan yr amgylchiadau presennol. Y nod fydd cadw'r diwrnod ysgol mor 'normal' ag sydd yn bosibl, ond tra'n cydnabod bod newidiadau sylfaenol i'r ffordd yr ydym yn ymddwyn ac yn gwneud rhai pethau tra yn yr ysgol.

Pwysig

Cofiwch na ddylai unrhyw blentyn nac aelod o staff fynychu'r ysgol os ydyn nhw, neu unrhyw aelod o'r teulu, yn arddangos symptomau o COVID-19 neu os ydyn nhw'n hunanynysu. Dylai ymweliad pob plentyn gydymffurfio gyda chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru o ran symptomau ac hunanynysu. Mae modd darllen y rhain yma https://llyw.cymru/symptomau-ac-hunanynysu-ar-gyfer-olrhain-cysylltiadau .

Dechrau'r Dydd

- Neilltuir amser cyrraedd a chasglu gwahanol i bob grŵp yn ogystal â mynedfa ac allanfa penodol.
- Fe fydd yr Hwb yn cychwyn o 8.30 y.b . Fe fydd rhai plant yr Hwb yn defnyddio'r giât ar Heol Canada ac yn cerdded lawr ochr yr ysgol ar draws yr iard ffrynt ac yn defnyddio drws y dosbarth Derbyn. Fe fydd gweddill y plant yn defnyddio giât y Feithrin ar Heol Seland Newydd ac yn defnyddio mynedfa'r Feithrin.
- Fe fydd y plant eraill yn dechrau yn hwyrach ar amseroedd gwahanol. Fe fydd y plant yma'n defnyddio'r fynedfa ar Heol Canada.
- Byddwch yn barod i giwio gyda phellter diogel o 2 fetr.
- Dim ond un oedolyn gyda'ch plentyn / plant i'r ysgol os yn bosib.
- Ni fydd rhieni / gofalwyr yn cael dod ar safle'r ysgol.
- Fe fydd y plant yn mynd yn syth i'r dosbarth ac yn dod mewn un ar y tro.
- Ni fydd cyfle i rieni / gofalwyr siarad â staff yr ysgol – os am gysylltu, defnyddiwch See-Saw/Dojo, anfonwch e-bost i'r ysgol neu ffoniwch os gwelwch yn dda.
- Peidiwch â chael eich siomi os bydd aelod staff yn eich atgoffa o hyn - mae'n bwysig ein bod yn cael y plant i mewn i'r ysgol ac oedolion i ffwrdd o'r safle mor brydlon ac mor drefnus â phosibl.
- Dylai rhieni / gofalwyr sicrhau bod unrhyw un sy'n dod â'ch plentyn i'r ysgol yn deall y drefn yma.
- Os yw'ch plentyn yn amharod i ddod i'r ysgol, byddwch yn ymwybodol na allwn eich helpu trwy gymryd eich plentyn a bydd angen i chi adael gyda'ch plentyn a rhoi cynnig arall arni yn nes ymlaen.

Diwedd y dydd

- Neilltuir amser casglu i bob grŵp yn ogystal âg allanfa penodol.
- Plant yr Hwb yn ymadael trwy giât Heol Canada a giât y Feithrin ar Heol Seland Newydd.
- Fe fydd y plant sy'n ymweld â'u dosbarthiadau yn ymadael ar amseroedd gwahanol trwy giât Heol Canada.
- Dim ond un oedolyn i gasglu eich plentyn / plant o'r ysgol os yn bosib.
- Dylai rhieni / gofalwyr sicrhau pellter cymdeithasol 2fetr wrth aros am eu plentyn.
- Bydd plant yn cael eu rheoli gan staff dosbarth i sicrhau eu bod yn rhyddhau un plentyn yn unig ar y tro. Byddwch yn amyneddgar os gwelwch yn dda.
- Yn y dosbarth, rhaid i blant aros yn eistedd nes eu bod yn cael eu galw gan staff i fynd at riant.
- Bydd staff yn oedi rhwng galw pob plentyn fel eu bod yn cael digon o amser i adael y safle'n ddiogel.
- Gadewch cyn gynted ag y byddwch wedi casglu eich plentyn.
- Dylech ddisgwyl i hyn gymryd ychydig yn hirach nag arfer.
- Ni fydd cyfle i'r athro/awes siarad â rhieni / gofalwyr, felly dylech ffonio neu e-bostio os oes angen trosglwyddo neges.
- Peidiwch â chael siom os bydd aelod o staff yn eich atgoffa o hyn - mae'n bwysig ein bod yn cael y plant a'r oedolion oddi ar y safle mor brydlon â phosibl.
- Dylai rhieni / gofalwyr sicrhau bod unrhyw un sy'n casglu eu plentyn yn deall y drefn yma.

Yn y dosbarth

- Yn unol â chanllawiau'r llywodraeth, symudwyd yr holl ddodrefn meddal, ac unrhyw beth arall nad yw'n hanfodol i gornel yn yr ystafell ddosbarth.
- Mae byrddau a seddi wedi'u trefnu i gynnig ardal dysgu ar wahân i bob plentyn
- Bydd disgwyl i blant ddod â bag bach neu boced plastig gyda phensil a rwber ynddo. Bydd plant Blynyddoedd 3 i 6 hefyd angen dod â phen ysgrifennu yn ogystal ag unrhyw lyfrau gwaith y maent wedi bod yn gwneud gwaith ynddyn nhw yn ystod eu cyfnod adref.
- Bydd ffenestri a drysau allanol ar agor os yw'n ddigon cynnes. Os defnyddir unrhyw offer grŵp, bydd yn cael ei sychu â chwistrell neu ei olchi cyn ei ddefnyddio'r eilwaith. Byddwn yn osgoi defnyddio offer grŵp lle bynnag a bo modd.
- Cyn cinio ac ar ddiwedd y dydd bydd yr holl fyrddau a chadeiriau a ddefnyddir yn cael eu glanhau.
- Fe fydd y glanhawyr yn glanhau'r ysgol pob bore cyn i'r ysgol ddechrau ac fe fydd un lanhawraig yn dod i'r ysol am ddwy awr yng nghanol y dydd yn ddyddiol i lanhau'r byrddau, cadeiriau, y tai bach, dolenni drysau a chanllaw'r grisiau.

Trefniadau'r dosbarth

- Bydd yr oedolion yn yr ysgol yn siarad â'r plant am y trefniadau a'n disgwyliadau, yn gwrando ar unrhyw bryderon ac yn ceisio tawelu meddyliau
- Ein nod yw atgyfnerthu negesuon ymbellhau cymdeithasol gyda'r plant mewn ffordd bositif a chadarnhaol ond tra rydym yn cydnabod bod cadw at y pellter o 2 fetr yn anodd gyda'r plant ieuengaf neu blant gydag anghenion dysgu ychwanegol, bydd yr ysgol yn gorfod cymryd camau i ddiogelu plant a staff eraill os ydy unrhyw blentyn yn gwrthod cydymffurfio gyda'r prosesau sydd yn eu lle.
- Ni fydd disgwyl i'r plant wisgo gwisg ysgol pan maen nhw yn dod i'r ysgol. Dillad addas (yn ddibynnol ar y tywydd) fydd eu hangen gan y byddwn yn treulio cymaint o amser ag sydd yn bosibl tu fas. Dylai'r plant gael cawod a dylai'r dillad gael eu golchi'n syth wedi iddynt ddychwelyd o'r ysgol. Ni ddylent ddod i'r ysgol y diwrnod canlynol yn yr un dillad os nad ydynt wedi cael eu golchi i gyd.
- Bydd plant yn eistedd mewn cadair benodol.
- Bydd plant yn gweithio yn yr un man dysgu trwy gydol y dydd, heblaw am weithgareddau awyr agored.
- Bydd ardaloedd chwarae agored yn cael eu dyrannu ar gyfer y grwpiau gwahanol.
- Bydd y plant sydd yn ymweld â'u dosbarthiadau yn cael eu rhoi mewn grwpiau o hyd at 7 neu 8, ar gyfer y diwrnod cyfan. Rhaid aros gyda'u grŵp ac ni chaniateir iddynt gymysgu â grwpiau eraill; mae hyn yn cynnwys amser cinio ac amser egwyl. .
- Bydd plant gweithwyr allweddol yn yr Hwb mewn grwpiau o 8 gydag un oedolyn. Bydd cyfle iddynt ymuno â'u dosbarth arferol ar ddiwrnodau cyswllt, ond ni fyddant yn cael mynychu'r Hwb o gwbl ar y diwrnod yma. Os ydynt yn mynd gyda'u dosbarth, rhaid cyrraedd a chasglu'ch plentyn ar yr amseroedd sydd wedi cael eu nodi ar gyfer y grŵp hwnnw.
- Offer hanfodol yn unig ogydd: potel ddŵr, bocs bwyd a chôt, dim teganau. Efallai y bydd angen het haul ac eli. Rhaid dod â rhain mewn bag a fydd yn cael ei gadw yn ardal waith y plentyn.
- Mae gennym gyflenwad da o lanweithydd dwylo ac hancesi papur. Peidiwch â danfon eich plentyn i mewn gyda'r rhain.
- Bydd plant yn cadw cotiau ar gefn eu cadeiriau.
- Ni fydd plant yn cael dod â beic na sgwter i'r ysgol.

Fe fydd y plant

- sy'n ymweld â'u dosbarthiadau yn symud i mewn ac allan o'r ysgol i'r iard trwy ddrws wrth ymyl y lifft yng nghefn yr ysgol neu trwy ddrws eu hardal addysgu yn unig.
- yr Hwb yn symud i mewn ac allan o'r ysgol i'r iard trwy ddrws eu hardal addysgu yn unig.
- yn cadw o leiaf 2m ar wahân i'w cyd-ddisgyblion ac oedolion.
- yn aros gyda'u grŵp trwy gydol y dydd.
- yn cerdded yn ofalus ar y coridorau gan sicrhau pellter os oes angen pasio disgybl arall.
- yn sefyll yn ôl wrth fynd i'r tŷ bach i adael unrhyw un allan yn gyntaf.
- yn defnyddio'r tŷ bach agosaf at eu man addysgu yn unig, hyd yn oed yn ystod amser egwyl ac amser cinio

- yn golchi eu dwylo pan ddônt i'r ysgol, cyn ac ar ôl egwyl, cyn ac ar ôl cinio, ar ôl mynd i'r tŷ bach ac ar ôl rhannu unrhyw adnoddau.
- yn dweud wrth athro / athrawes os yn teimlo'n sâl
- yn tisian / pesychu mewn i'r fraich os oes angen.
- yn taflu unrhyw bapur tŷ bach i lawr y tŷ bach cyn golchi dwylo.
- yn rhoi papur tisŵ mewn i fin â chaead arno yn y dosbarth.
- yn clymu gwallt hir yn ôl.
- bydd angen i bob plentyn ddod â byrbryd iach yn ei fag.

Staff

Bydd y staff yn:

- gwisgo dillad eu hunain sy'n hawdd eu golchi.
- gwisgo menig, ffedog a mwgwd os yn rhoi cymorth cyntaf.
- golchi neu lanhau dwylo ar ôl cofrestru ac yr un mor aml â'r plant ar adegau eraill.
- cadw pellter cymdeithasol oddi wrth blant, pryd bynnag mae'n bosibl gwneud hynny, ac oddi wrth oedolion eraill.
- osgoi ymgynnull gydag aelodau eraill o staff a byddant yn sicrhau pellter cymdeithasol ar bob adeg.
- Defnyddio pa bynnag Offer Amddiffyn Personol sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n ddiogel ac yn parchu dewisiadau eraill.

Rheoli Swyddfa'r Ysgol

Bydd staff y swyddfa yn:

- gadael i un oedolyn ar y tro ddod i brif fynedfa'r ysgol ac i ddefnyddio'r intercom.
- ffonio rhiant os bydd plentyn yn ymddangos yn sâl, neu o soes damwain tŷ bach wedi digwydd na ellir ei reoli'n hawdd gyda'r Offer Amddiffyn Personol a'r mesurau pellhau yr ydym wedi'u rhoi ar waith.
- trosglwyddo unrhyw negeseuon yn ofalus ac yn brydlon i'r staff addysgu.
- sychu'r ffônau ar ôl eu defnyddio.
- defnyddio glanweithydd dwylo neu olchi dwylo ar ôl pob cyswllt gyda rhiant neu blentyn.
- glanhau eu hardaloedd eu hunain ar ddiwedd pob dydd gyda chwistrell lanweithiol.
- sychu'r argraffydd a'r 'pad' arwyddo mewn yn y brif fynedfa ar ôl pob defnydd.
- fe fydd y Pennaeth yn glanhau eu hardal waith ar ddiwedd pob dydd gyda chwirstrell lanweithiol.

Amser chwarae a chinio

- bydd gan pob grŵp blwyddyn a'r grŵp sydd yn yr Hwb eu hamser egwyl a chinio eu hunain, ni fydd y grwpiau'n cymysgu.
- ni chaniateir gemau sy'n golygu bod y plant yn cyffwrdd ei gilydd.
- gall y plant ddefnyddio offer a fydd ar gael iddynt ond nid y fframiau dringo.
- ni fydd unrhyw un yn cael eistedd ar y meinciau ar iard yr ysgol.

Amser cinio:

- rhaid i bob plentyn ddod â phecyn bwyd.
- bydd plant yn bwyta yn eu hystafell ddosbarth.
- bydd pob grŵp o blant yn cael 30 munud i fwyta ac amser chwarae.

Mannau a rennir

- Ni chaniateir i blant ymgynnull mewn ardaloedd a rennir fel y coridorau a'r toiledau.
- Ni fydd y llyfrgell ar agor.
- Os defnyddir yr offer TG, bydd bysellfyrddau, llygod a monitorau yn cael eu sychu.

Ystafell hunanynysu

- Clustnodir ystafell hunanynysu ar gyfer plentyn neu oedolyn sydd yn teimlo'n sâl neu'n dangos symptomau Covid-19.
- Fe fydd y plentyn yn aros yn yr ystafell hunanynysu tan bydd ei riant yn dod i'w gasglu. Fe fydd yr oedolyn sydd yn aros gyda'r plentyn yn gwisgo Offer Amddiffyn Personol. Fe fydd cyfleusterau tŷ bach ar gael i'r plentyn sydd yn hunanynysu'n unig. Ni fydd neb arall yn defnyddio'r ty bach yma tan fydd wedi'i lanhau.
- Bydd disgwyl i rieni ddod i gasglu unrhyw blentyn sydd yn plentyn sy'n hunanynysu cyn gynted ag sydd yn bosibl.

Ysgol Mynydd Bychan's Health and Safety Arrangements

The purpose of the arrangements below is to ensure the health and safety of each child and staff member on the Ysgol Mynydd Bychan school site while the restrictions due to COVID-19 are in place. Clearly, every member of staff will strive to ensure that the children are welcomed in a caring manner and to an atmosphere that is as vibrant, cheerful and welcoming as possible in the present circumstances. The aim will be to keep the school day as close to 'normal' as possible, but while acknowledging that there are fundamental changes to the way we behave and do some things while at school.

Important

Remember that no child nor member of staff should attend if they, or any member of the family, display symptoms of COVID-19 or if they are self-isolating. Each child's visit should comply with the latest Welsh government guidance on symptoms and self-isolation. These can be read here https://llyw.cymru/symptomau-ac-hunanynysu-ar-gyfer-olrhain-cysylltiadau.

Start of the Day

- Each group is assigned a drop-off and pick-up time and a specific entry and exit point.
- The Hub will start from 8.30 am. Some Hub children will use the gate on Canada Road and walk down the side of the school, across the front yard and use the Reception Class door. The rest of the Hub children will use the Nursery gate on New Zealand Road and then use the Nursery entrance.
- The children returning for a class Check-in visit will be allocated a particular start time. These children will use the gate on Canada Road.
- Be prepared to queue at a safe distance of 2 meters outside the school site.
- Only one adult with your child / children to school if possible.
- Parents / carers will not be allowed onto the school site.
- The children will go straight to class. Children visiting Reception, Year 1 and 2 will use the Year 1 and 2 class entrances. Children form Years 3, 4, 5 and 6 will use the rear door entrance, next to the Canada Road gate.
- There will be no opportunity for parents / carers to talk to school staff – please use See-Saw/Dojo, email or phone the school
- Don't be disappointed if a member of staff reminds you of this - it is important that we get the children into school and adults away from the site as promptly and efficiently as possible.
- Parents / carers should ensure that anyone bringing your child to school understands these protocols.
- If your child is reluctant to come to school, be aware that we cannot help you by taking your child, you will need to leave with your child and try again later.

End of the day

- Each group is assigned a collection time and a specific exit point.
- Hub children will exit through either the Canada Road gate or the Nursery gate on New Zealand Road.
- The children who visit their classes will leave at different times through the Canada Road gate.
- Only one adult to collect your child(ren) from school if possible.
- Parents / carers should ensure 2 metre social distancing whilst waiting for their child.
- Members of staff will ensure that they release only one child at a time. Please be patient.
- The children must remain seated until they are called by staff to approach a parent.
- Staff will allow suitable time between calling each child so that they have the opportunity to start leaving school safely.
- Please leave as soon as you have collected your child.
- Expect this process to take a little longer than usual.
- There will be no opportunity for the teacher to speak to parents / carers, please call or email if a message needs to be transmitted.
- Don't be disappointed if a member of staff reminds you of this - it is important that we get the children and adults off site as promptly as possible.
- Parents / carers should ensure that anyone collecting their child understands these protocols.

In the classroom

- In accordance with government guidelines, all soft furnishings, and anything else that is not essential has been moved to a corner of the classroom.
- Tables and seating are arranged to offer each child an individual learning area.
- Children will be expected to bring a small bag or plastic pocket with pencil and rubber. Children in Years 3 to 6 will also need to bring a pen as well as any workbooks that they have been working on during their time at home.
- External windows and doors will be open if the temperature is warm enough. If any group equipment is used, it will be spray dried or washed before being reused. We will avoid using group equipment wherever possible.
- Before lunch and at the end of the day all tables and chairs used will be cleaned.
- The cleaners will clean the school every morning before school starts and one cleaner will come to school for two hours in the middle of the day daily to clean the tables, chairs, toilets, door handles and stair rail.

Class procedures

- Members of school staff will talk to the children about the arrangements and our expectations, listen to any concerns and try to reassure them.
- Our aim is to reinforce social distancing messages with the children in a positive way but while we recognise that keeping to the distance of 2 metres is difficult with the youngest children or children with additional learning needs, the school will have to take steps to safeguard children and other staff if any child refuses to comply with the processes in place.
- Children will not be expected to wear school uniform when they come to school. Suitable clothing (weather permitting) will be needed as we will spend as much time as possible outside. The children should have a shower and the clothes should be washed immediately on their return from school. They should not come to school the next day in the same clothes unless they have all been washed.
- Children will sit in a specific chair.
- Children will work in the same learning area throughout the day, except for outdoor activities.
- Outside play areas will be allocated to the groups.
- The children who visit their classes will be in groups of 7 or 8, for the whole day. They must remain with their group and must not mix with other groups; this includes lunch and break times.
- The children of key workers in the Hub will be in groups of 8 with one adult. They will have an opportunity to join their usual class when visiting on Check-in days, but they will not be able to attend the Hub at any point if also visiting their class on the same day. If they attend a Check-in day in class, the drop-off and pick-up times specified for that day must be adhered to.
- Only essential equipment: water bottle, lunch box and coat, no toys are allowed. The pupils may need a sun hat and sun cream. These must be placed in a bag that will be kept in the child's work area.
- We have a healthy supply of hand sanitizer and tissue. Your children don't need to bring these in.
- Children will keep their coats on the back of their chairs.
- Children will not be allowed to bring a bike or scooter to school.

The children

- who are visiting their classes will move in and out of the school to the yard through the door next to the lift at the back of the school or through the door of their teaching area.
- who are in the Hub will move in and out of the school to the yard through the door of their teaching area.
- will keep at least 2m apart from their classmates and adults.
- will stay with their group throughout the day.
- will walk carefully along the corridors ensuring distance if another pupil needs to be passed.
- will stand back when going to the toilet to let anyone out.
- will only use a toilet closest to their teaching area, even at break and lunch times.

- will wash their hands when they come to school, before and after break, before and after lunch, after going to the toilet and after sharing any resources.
- will tell a teacher if they feel unwell.
- should sneeze / cough into the arm should they need to.
- will toss any toilet paper down the toilet before hand washing.
- will put tissues into a lidded bin in the class.
- will tie long hair back.
- will need to bring a healthy snack in their bag.

Members of staff

Staff will:

- wear leisurely clothing that is easy to wash.
- wear gloves, apron and mask if giving first aid.
- wash or clean hands after registration and at least as often as children.
- wherever possible, maintain social distance from other children and adults.
- avoid congregating with other staff members in areas around the school and ensure social distancing at all times.
- Use whatever PPE makes them feel safe and will respect the choices of others.

Management of the School Office

The secretaries will:

- allow one adult at a time to come to the main entrance and use the intercom.
- call a parent if a child appears to be ill or has had a toilet accident that cannot be easily controlled with the DAP and the distance measures that we have put in place.
- communicate any messages carefully and promptly to teaching staff.
- wipe and dry telephone handsets after use.
- use a hand sanitiser or hand wash after every contact with parents or child.
- clean their own areas at the end of each day with a sanitary spray.
- dry the printer and keypad in the main entrance after each use.
- The Headteacher will clean her work area at the end of each day with a sanitary pray and wipes.

Play and lunchtime

- Each year group and the key worker group of children will have their own break and lunch times, the groups will not mix.
- Games that involve close interaction with each will not be allowed.
- The children can use equipment available to them but not the climbing frames.
- No one will be allowed to sit on the benches on the school yard.

Lunch time

- All children must bring a packed lunch.
- Children will eat in their classroom.
- Each group of children will have 30 minutes to eat and play.

Shared spaces

- Children will not be allowed to congregate in shared areas such as corridors and toilets.
- The library will not be open.
- If the IT equipment is used, keyboards, mice and monitors will be wiped.

Self-isolating room

- A self-isolating room is allocated for a child or adult who is feeling unwell or showing symptoms of Covid-19.
- The child will remain in the isolation room until his parent comes to collect him. The adult staying with the child will wear PPE. Toilet facilities will be available for the child who is isolated. No one else will use this toilet until it has been cleaned.
- Parents are expected to come and collect their child as soon as possible.